TASG 1 : PERFFORMIO / DIGIDOL

a) Mewn grwpiau, ceisiwch greu 'perfformiad' o'r gerdd, fel petai'n olygfa mewn ffilm neu ddrama, yn hytrach na cherdd.

b) Wedi gwneud hynny, trafodwch os ydy hi'n gerdd addas i'w pherfformio neu beidio.

c) Ar sail eich perfformiad, crëwch ffilm fer sy'n 'dangos' y digwyddiad ar y bws, ac yn cynnwys cyfweliadau gyda'r bachgen a gafodd ei fwlio, un o'r bwlis ac un o'r rhai oedd ar y bws ond na wnaeth ymyrryd.

TASG 2 : DADANSODDI

a) Sut ydyn ni'n dod yn ymwybodol o deimladau'r bachgen yn y gerdd?

b) Beth yw eich teimladau chi wrth ddarllen y gerdd?

TASG 3 : DADANSODDI / TRAFOD

a) Mewn parau, dewch o hyd i ddefnydd y bardd o'r nodweddion canlynol:

a) **deialog**
b) **cymhariaeth estynedig**.

b) Mae un ohonoch i edrych ar y ddeialog a'r llall i edrych ar y gymhariaeth estynedig.

c) Disgrifiwch i'ch partner pam fod y bardd yn defnyddio'r nodwedd yn y gerdd – beth yw'r effaith? A yw'n effeithiol?

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod chi'n un o swyddogion y Chweched Dosbarth. Mae'r Pennaeth wedi gofyn i chi ysgrifennu adroddiad byr yn disgrifio'r digwyddiad ar y bws, fel rhan o ymchwiliad i achosion o fwlio. Ysgrifennwch adroddiad (200-300 o eiriau) yn esbonio'n glir beth ddigwyddodd ar y bws y diwrnod hwnnw.

TASG 1 : CYWAITH DOSBARTH

a) Petasech chi am greu graffiti i sicrhau y byddai pawb yn cofio amdanoch chi fel unigolyn, pa eiriau a ddewisech chi?

b) Recordiwch eich hun yn llefaru'r geiriau hyn. (Gall yr athro neu'r athrawes gyfuno'r holl recordiadau fel cofnod llafar o ymgais y dosbarth at 'anfarwoldeb graffiti'.)

c) Wedi i bawb yn y dosbarth gwblhau eu graffiti personol, beth am i bawb yn eu tro ysgrifennu'r graffiti hynny ar bapur poster mawr gwyn ar wal yr ystafell ddosbarth (poster y mae'r athro neu'r athrawes wedi'i osod yno'n benodol ar gyfer y dasg hon!)?
Gall hwn fod yn gofnod ysgrifenedig o ymgais y dosbarth at 'anfarwoldeb graffiti'.

ch) Wedi i'r papur poster gael ei lenwi, bydd cyfle gan bob disgybl i ddarllen yr holl bytiau gan eu cyd-ddisgyblion.

d) Beth am feddwl sut y byddai'n bosib cyfuno a threfnu rhai o'r datganiadau i greu cerdd (cerdd rap, efallai)?

TASG 2 : YSGRIFENNU

Aeth dros chwarter canrif heibio ers i Linda adael ei hôl yn y semént yn y Rhyl.

Dychmygwch sut fywyd oedd arni ar y pryd.

Ysgrifennwch ymson (250 o eiriau) yn cofnodi ei theimladau'r diwrnod hwnnw, ac yn esbonio pam yr ysgrifennodd y graffiti hwnnw.

TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mewn parau, trafodwch beth yw teimladau'r bardd wrth weld y bocsys ffôn yn cael eu tynnu i lawr.

Pa ymadroddion yn y gerdd sy'n cefnogi eich safbwynt?

Edrychwch yn arbennig o ofalus ar y tri phennill olaf.

TASG 2 : DADANSODDI

Esboniwch, yn eich geiriau eich hun, pam mae'r bardd yn galw'r bocsys ffôn yn 'cromfachau cochion'?

TASG 3 : RHESTRU

Gwnewch restr sydyn o bethau a fyddai'n amhosib i chi eu gwneud heb ffôn symudol.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod ar eich gwyliau yng ngorllewin Cymru yn yr oes cyn dyfodiad y ffôn symudol. Rydych yn aros mewn gwesty diarffordd ar lan y môr. Un noson, ynghanol storm mellt a tharanau, mae'r cyflenwad trydan a'r llinellau ffôn yn cael eu niweidio'n ddifrifol, ac nid oes modd cysylltu â'r byd y tu allan.

Disgrifiwch ddigwyddiadau'r noson honno fel tasech yn adrodd stori ysbryd neu arswyd i griw o ffrindiau. (400 o eiriau)

IEUENCTID: Snog

TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mewn parau, chwilwch yr ymadroddion o'r gerdd sy'n dangos taw disgybl ysgol, ac nid oedolyn, sy'n adrodd yr hanes.

Pam, dybiwch chi, fod y bardd wedi penderfynu ysgrifennu o safbwynt y disgybl?

TASG 2 : DADANSODDI

Mae'n bosib bod 'snogo' yn fater difrifol i rai.

Pam, felly, fod y bardd wedi penderfynu ysgrifennu cerdd ysgafn a doniol am y pwnc?

TASG 3 : CREADIGOL

Rhowch dro ar fathu term Cymraeg ar gyfer y gair 'snog' neu 'snogo'.

TASG 4 : CREADIGOL

Edrychwch ar benillion 5 a 6 eto, gan sylwi'n arbennig ar y cyffelybiaethau/cymhariaethau.

Ceisiwch feddwl am dair cyffelybiaeth/cymhariaeth newydd i ddisgrifio dau berson yn 'snogo'.

TASG 5 : YSGRIFENNU

Ysgrifennwch sgript ysgafn (un ochr A4) sy'n sgwrs rhwng tri o fechgyn neu dair o ferched am ryw helynt caru yn yr ysgol.

TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mewn parau, trafodwch sut mae agwedd y bardd at amser wedi newid erbyn iddo gyrraedd yr ail bennill.

Pa eiriau, ymadroddion neu linellau sy'n dangos hyn i chi?

TASG 2 : DADANSODDI

Beth, yn eich barn chi, yw ystyr dwy linell ola'r gerdd?

Pam yn union nad oes gan y bardd 'awydd mwy i weindio'r cloc'?

TASG 3 : RHESTRU

Rhestrwch y pedwar peth yr ydych yn edrych ymlaen at gael gwneud pan fyddwch chi'n ddigon hen i adael yr ysgol?

TASG 4 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch gerdd ddwy bennill ar y testun 'Amser'.

Yn y pennill cynta' (dim mwy na 6 llinell), canolbwyntiwch ar brofiad lle mae'r amser yn ymddangos i fynd heibio'n araf iawn.

Yn yr ail (dim mwy na 6 llinell), canolbwyntiwch ar brofiad lle mae'r amser yn ymddangos i fynd heibio'n gyflym iawn.

Gorau oll os oes rhyw fath o gysylltiad rhwng y profiadau, er mor annhebyg ydyn nhw.